

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Swyddfeydd Mochdre, Conway Road,
Mochdre, LL28 5AB.

Adain Gwaith Stryd
Rhif Ffacs: 01492 575454



Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Pennaeth Gwasanaeth - Geraint Edwards, BEng(Hons) CEng FICE

CAIS AM DRWYDDED AR GYFER SGIP

DEDDF PRIFFYRDD 1980: ADRAN 139
DEDDF RHEOLIADAU TRAFFIG Ffordd 1984: ADRAN 65
RHEOLIADAU SGIPIAU ADEILADWYR (MARCIO) 1984
RHEOLIADAU ARWYDDION TRAFFIG (RHWYSTRAU DROS DRO) 1985
CANIATÂD I OSOD SGIP ADEILADU AR Y BRIFFORDD

Eich Cyf:		Cyf Awdurdod Stryd SW2600/	
Enw Cyswllt (PRIF LYTHRENNAU):			
Ar Ran (Cwmni Sgip):			
Cyfeiriad:			
Rhif Ffôn:		Rhif Ffacs:	
LLEOLIAD Y SGIP	Rhif/Enw tŷ:		
Enw Stryd:		Pentref/Tref:	
Dyddiad o:	Dyddiad hyd at:	Nifer sgip/iau:	
:	:		
RHAID I'R YMGEISYDD ARWYDDO AC ANFON COPI O'R CAIS AM DRWYDDED AR BOB ACHLYSUR.			
Nid yw'r drwydded yma'n ddilys ac ni ddylid gosod sgip/iau nes:-			
1. Bod yr Adran yma wedi derbyn a gwirio cadarnhad ysgrifenedig gennych sy'n nodi eich bod yn derbyn yr holl Amodau. 2. Eich bod wedi derbyn y Drwydded wedi'i chydarwyddo gan y Peiriannydd Adrannol perthnasol neu ei Swyddog awdurdodedig			
DATGANIAD Rwyf/Rydym yn cytuno i gadw at yr holl amodau a nodir yn y Drwydded Sgip yma a gyhoeddir i mi/ni gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.:			
LLOFNOD:.....		ENW(Printiwch).....	
DYDDIAD:.....			
AT DDEFNYDD YR AWDURDOD PRIFFYRDD YN UNIG			
AMODAU SY'N BENODOL I'R SAFLE:			
GAN HYNFY rhoddaf Drwydded i osod sgip neu sgipiau adeiladwyr yn unol â'r amodau ynghlwm.			
ARWYDDWYD AR RAN YR AWDURDOD:.....DYDDIAD:.....			
Cyf NSG: 466/			

AMODAU SAFONOL

1. Dylid gosod y sgip fel bod ei hochrau hiraf yn gyfochrog ag ochr y ffordd, palmant y briffordd neu ymyl y palmant fel nad yw'n blocio draeniad dŵr wyneb ar y briffordd nac yn rhwystro mynediad i unrhyw dwll archwilio neu offer unrhyw Ymgymwrwr Statudol.
2. Cytunir ar union leoliad y sgip neu sgipiau gyda Pheiriannydd Adrannol yr Adran neu Swyddog awdurdodedig arall, er mwyn sicrhau y tariffir cyn lleied â phosibl ar rediad traffig -ceir a cherddwyr.
3. Bydd yr ymgeisydd wedi indemnio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a/neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gadw wedi'i indemnio, rhag pob trallod, gweithred, achos, cais, gofynion, costau, difrod a threuliau a allai gael eu codi, eu dwyn neu eu gwneud yn eu herbyn am ba reswm bynnag a allai godi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i'r caniatâd hwn a bydd ganddo bolisi yswiriant i gynnwys risgiau o'r fath. Bydd isafswm swm yr yswiriant hwnnw yn £5 miliwn am unrhyw un cais. Rhaid darparu copi o'r dystysgrif cyn cyhoeddi'r rhybudd.
4. Bydd yr ymgeisydd yn atebol am unrhyw ddifrod i strwythur y briffordd a/neu offer Ymgymwrwr Statudol o ganlyniad i adael sgipiau ar y briffordd a chodir tâl gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol am y costau gwirioneddol o wneud iawn am unrhyw ddifrod.
5. Pan fo mwy nac un sgip ar y briffordd ar unrhyw adeg, dylid gosod pob sgip mor agos â phosibl at ei gilydd, ond ni ddylent rwystro mynediad i unrhyw eiddo oni bai bod caniatâd ysgrifenedig wedi'i dderbyn gan breswylwr yr eiddo.
6. Ni ddylai unrhyw sgip fod yn fwy na 5 metr o hyd wrth 2 fetr o led.
7. Tra bydd pob sgip neu grŵp o sgipiau ar y briffordd, dylid eu marcio, diogelu a'u goleuo yn unol â'r gofynion canlynol:
 - (a) Dylai pen pob sgip (hynny yw, yr ochrau o'r sgip sy'n wynebu'r traffig i'r ddau gyfeiriad pan fo'r sgip wedi'i lleoli fel y nodir yn amod 2 uchod) fod wedi'u peintio'n felyn a'u marcio'n unol â'r gofynion yn Rheoliadau Sgipiau Adeiladwyr (Marcio) 1984. Dylid cadw'r paent a'r marcio'n lân bob amser.
 - (b) Ar ochr pob sgip dylid dangos enw, cyfeiriad a rhif ffôn y sawl sy'n llogi'r sgip. Dylai fod yn bosibl cysylltu â'r sawl sydd wedi llogi'r sgip ar sail 24 awr ar y rhif ffôn, rhag ofn i argyfwng godi.
 - (c) Dylai pob sgip gael ei ddiogelu drwy osod o leiaf 4 côn traffig ar y briffordd ar letraws ar yr ochr sy'n nesáu at y sgip. Pan fo 2 sgip neu fwy wedi'u gosod yn rhes, fel bo'r pellter rhwng y sgipiau yn ddim mwy na 2 fetr, dylai'r rhes gael ei diogelu fel pe bai'n un sgip.
 - (d) Drwy'r nos (hynny yw rhwng hanner awr ar ôl machlud haul a hanner awr cyn codiad haul) dylid gosod lamp ambr yn erbyn neu ynghlwm i bob cornel o'r sgip, neu i gorneli ochr y rhes o sgipiau os bydd dau neu fwy o sgipiau wedi'u gosod yn rhes a bod y pellter rhwng y sgipiau yn ddim mwy na 2 fetr, a hefyd dylid gosod un rhwng bob côn a'r nesaf. Dylai pob lamp fod wedi'i goleuo i bŵer o ddim llai na 1 candela a dylent aros ynghyn drwy'r nos.
8. Ni ddylai unrhyw sgip, sydd wedi'i gosod ar y briffordd, gynnwys deunydd fflamadwy, ffrwydrol, niweidiol neu beryglus nac unrhyw ddeunydd sy'n debygol o bydru neu sydd fel arall, neu sy'n debygol o ddod yn niwsans i ddefnyddwyr y briffordd.
9. Ni ddylid defnyddio unrhyw sgip yn y fath fodd fel bod ei gynnwys yn syrthio ar y briffordd neu fod llwch yn dianc o gynnwys y sgip pan yw ar y briffordd.
10. Dylid symud pob sgip er mwyn ei wagio mor fuan ag y bo hynny'n ymarferol bosibl ac mewn unrhyw achos ddim llai na 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei lenwi.
11. Ni ddylai unrhyw sgip aros ar y briffordd yn sgil y caniatâd yma ar ôl i gyfnod y caniatâd yma a nodir ym mharagraff 2 uchod ddirwyn i ben.
12. Dylid cael gwared ar yr holl ddeunydd a roddir yn y sgip mewn modd priodol a dylid gadael y briffordd lle gosodwyd y sgip neu'r sgipiau mewn cyflwr glân a thacclus wedi i'r caniatâd ddod i ben.

